# *Dewch i 'Steddfod y Dathlu!*

EISTEDDFOD BRO LLANDEGFAN

## Dydd Sadwrn, Gorffennaf 6ed, 2024
## 10:30 a 5:30
## Neuadd y Plwyf, Llandegfan

*Oedolion £4   Plant 50c  (10:30)*

*Oedolion £5   Plant 50c  (5:30)*

# *1924-2024*

**BEIRNIAID**

**Cerdd:** Sian Meinir, Penarth, Caerdydd.
Gwennant Pyrs, Penrhosgarnedd, Bangor.

**Cerdd Dant, Alaw Werin:** Gwennant Pyrs ac Angharad Llwyd.

**Llefaru:** Angharad Llwyd, Llanllechid, Bethesda.

**Llên**: Llion Jones, Bangor.

**Cyfansoddi Cerdd:** Gwennant Pyrs.

**CYFEILYDDION**
Olwen Jones, Penrhosgarnedd.
**Piano:** Ann Peters Jones, Bodedern.

**ARWEINYDDION**

Dewi Hood, Rhian Medi, Aled Jones, Arwyn Williams,
Huw Edward Jones, Gary Pritchard.

**LLYWYDD (Prynhawn)** Wiliam Emrys Roberts (Wil Tân)

**SWYDDOGION:**

| | |
|---|---|
| Cydlynydd: | Sian Arwel Davies |
| Trysorydd: | Alun Roberts |
| Ysgrifennydd Cerdd: | Ann Coleman |
| Ysgrifennydd Llên a Llefaru: | Helen Davies |
| Ysgrifennydd Celf: | Angela Ungoed Hughes |
| Cynrychiolydd yr Ysgol Gynradd: | Greta Stuart |
| Prif Stiward: | J. Eirian Davies |

**Ann Coleman,**
**21 Bron Haul,**
**Llandegfan**
**Ynys Môn.**
**LL59 5YF**
**01248 716289**

**Helen Davies,**
**7 Cae Ffynnon,**
**Llandegfan,**
**Ynys Môn.**
**LL59 5PR**
**01248 714705**

**Cystadlaethau Llwyfan Bore/Prynhawn**

**Mae holl Gystadlaethau Oed Cynradd yr Eisteddfod yn Hunanddewisiad.**

**Cyflwynir Medal i enillydd pob cystadleuaeth Oedran Cynradd.**

**Noddir gwobrau Llefaru Blwyddyn 9 ac iau gan**
**Edward Morus Jones a'r teulu.**

1. Unawd Dosbarth Derbyn neu iau. Gwobrau: £3; £2; £1.
2. Llefaru Dosbarth Derbyn neu iau. Gwobrau: £3; £2; £1.
3. Unawd Bl.1 a 2. Gwobrau: £3; £2; £1.
4. Llefaru Bl.1 a 2. Gwobrau: £3; £2; £1.
5. Parti Unsain Bl.1 a 2. Gwobrau: £12; £8; £4.
6. Unawd Bl.3 a 4. Gwobrau: £4; £3; £2.
7. Llefaru Bl.3 a 4. Gwobrau: £4; £3; £2.
8. Unawd Cerdd Dant Bl.4 ac iau. Gwobrau: £4; £3; £2.
9. Unawd Alaw Werin Bl.4 ac iau. Gwobrau: £4; £3; £2
10. Unawd Bl.5 a 6. Gwobrau: £5; £4; £3.
11. Llefaru Bl.5 a 6. Gwobrau: £5; £4; £3.
12. Unawd Alaw Werin Bl.5 a 6
(i'w chanu yn ddigyfeiliant). Gwobrau: £5; £4; £3.
13. Unawd Cerdd Dant Bl.5 a 6. Gwobrau: £5; £4; £3.
14. Canu Emyn Bl.6 ac iau. Gwobrau: £5; £4; £3.
15. Llefaru **Dysgwyr** Bl.3 i 6. Gwobrau: £5; £4; £3
16. Unawd Piano Bl.6 ac iau:
perfformiad dim hwy na 3 munud. Gwobrau: £5; £4; £3.

17. Unawd ar unrhyw offeryn ac eithrio'r Piano Bl.6 ac iau. Perfformiad dim hwy na 3 munud. (Gweler Amod 7) Gwobrau:£5;£4;£3.

18. Parti Unsain/Deusain Bl. 3-6. Gwobrau:£12;£8;£4.

19. Deuawd (gan gynnwys deuawd Cerdd Dant) Bl.6 ac iau. Gwobrau:£12;£8;£4

20. Grŵp Llefaru/Cyflwyniad Llafar Bl.6 ac iau (6-12 mewn nifer). Gwobrau:£12;£8;£4

21. Monolog neu Ymgom Bl.6 ac iau (heb fod yn hwy na 5 munud Gall fod yn seiliedig ar lyfr) Gwobrau:£5;£4;£3

22. Band/ Grŵp Offerynnol Bl.6 ac iau. Perfformiad dim hwy na3 munud). Gwobrau:£12;£8;£4.

## Er cof

***Dymuna teulu Beryl Griffith, cyn-Ysgrifennydd yr Eisteddfod, gynnig gwobr arbennig o £200 a Thlws o waith ei chwaer, Elizabeth Ann Evans, er cof amdani.***

***Cyflwynir y wobr am y perfformiad gorau/ mwyaf addawol gan unrhyw***

Bydd y Beirniaid yn ystyried cystadleuwyr yn y Cystadlaethau Cerdd o bob oedran o dan 25 oed.

## Cyfarfod Nos

1. Unawd Bl.7, 8, 9 Hunanddewisiad. Gwobrau: £8, £6, £4.
2. Unawd Cerdd Dant Bl.7, 8, 9. Hunanddewisiad. Gwobrau: £8, £6, £4.
3. Unawd Alaw Werin Bl.7, 8, 9. Hunanddewisiad. (i'w chanu'n ddigyfeiliant). Gwobrau: £8, £6, £4.
4. Unawd ar unrhyw offeryn cerdd yn cynnwys y piano, Bl.7,8,9. Hunanddewisiad na chymer fwy na 5 munud i'w berfformio. (Gweler Amod 7) Gwobrau: £8, £6, £4.
5. Llefaru Bl.7, 8, 9. Hunanddewisiad. Gwobrau: £8, £6, £4.
6. Unawd Bl.10-13 Hunanddewisiad. Gwobrau: £10, £8, £6.
7. Unawd Cerdd Dant Bl.10-13. Hunanddewisiad. Gwobrau: £10, £8, £6.
8. Unawd Alaw Werin Bl.10-13. Hunanddewisiad. Gwobrau: £10, £8, £6.
9. Unawd ar unrhyw offeryn cerdd yn cynnwys y piano, Bl.10-13. Hunanddewisiad na chymer fwy na 7 munud i'w berfformio. (Gweler Amod 7). Gwobrau: £10, £8, £6.
10. Llefaru Bl.10-13. Hunanddewisiad. Gwobrau: £10, £8, £6.
11. Unawd dan 25 oed. Hunanddewisiad. Gwobrau: £25, £20, £15.
12. Unawd Cerdd Dant dan 25 oed. Hunanddewisiad. Gwobrau: £25, £20, £15.
13. Unawd Alaw Werin dan 25 oed. Hunanddewisiad. Gwobrau: £20, £15, £10.
14. Unawd allan o Sioe Gerdd dan 25 oed: Unrhyw unawd allan o Sioe Gerdd Gymraeg wreiddiol. Heb fod yn hwy na 5 munud. Gweler Amod 7. Gwobrau: £20, £15, £10.

15. Unawd ar unrhyw offeryn cerdd yn cynnwys y piano, dan 25 oed: Hunanddewisiad na chymer fwy na 7 munud i'w berfformio. (Gweler Amod 7) Gwobrau: £25, £20, £15.

16. Prif gystadleuaeth Llefaru i rai 19 oed a throsodd. Hunanddewisiad na chymer fwy na 5 munud i'w berfformio. Gwobrau: £40, £30, £20.

17. Canu Emyn draddodiadol neu gyfoes i rai **dan** 50 oed. Hunanddewisiad. Caniatéir canu i gyfeiliant unrhyw offeryn neu'n ddi-gyfeiliant. Gwobrau: £20, £15, £10.

18. Canu emyn draddodiadol neu gyfoes i rai **dros** 50 oed. Gwobrau: £20, £15, £10.

19. Unawd Gymraeg Agored: Hunanddewisiad. Gwobrau: £30, £25, £15.

20. Unawd Cerdd Dant Agored: Hunanddewisiad. Gwobrau: £25, £20, £15.

21. Unawd Alaw Werin Agored: Hunanddewisiad. Gwobrau: £20, £15, £10.

22. Her Unawd Agored: Hunanddewisiad allan o Opera, Lieder neu unrhyw Waith Crefyddol i'w chanu yn y Gymraeg neu'r iaith wreiddiol. Gwobrau: £40, £30, £20.

23. Unawd Hen Ganiadau Agored : Hunanddewisiad. Gwobrau: £30, £25, £15.

24. Monolog Agored. Cyflwyno dau ddarn sy'n gyferbyniol. Caniatéir hyd at 7 munud ar gyfer y cyflwyniad cyfan yn cynnwys paratoi a chlirio'r llwyfan. Gwobrau: £40, £30, £20

25. Deuawd neu Ensemble Lleisiol, 10-26 oed, rhwng 2 ac 8 mewn nifer. Hunanddewisiad na chymer fwy na 4 munud i'w berfformio, yn ddigyfeiliant neu gyda chyfeiliant, geiriau Cymraeg. Gwobrau: £30, £20,£10.

26. Grŵp Llefaru Agored: Hunanddewisiad. (Gweler Amod 9). Gwobrau: £50, £30.

27. Côr (Cymysg/Meibion/Merched) heb fod yn llai nag 20 mewn nifer, Rhaglen na chymer fwy na 10 munud i'w pherfformio. (Gweler Amod 9). Gwobrau: £300, £200, £100.
**"Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng Mai 2024 a Mai 2025 yn rhoi'r hawl i gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025".**

*************

## Cystadlaethau Cartref

***Cyn yr Eisteddfod byddai'r Ysgrifennydd Llên yn gwerthfawrogi derbyn amlen A4 wedi'i stampio â stamp addas a'i hunan gyfeirio, NEU gyfeiriad e-bost, gan bob ymgeisydd. Mae'n bosib anfon y gwaith mewn e-bost : helencaeffynnon@yahoo.co.uk. Cyfeiriad: Mrs. H. Davies, 7 Cae Ffynnon, Llandegfan, Porthaethwy,Ynys Môn LL59 5PR***

*************

**Cystadleuaeth y Goron**

Cerdd neu gyfres o gerddi caeth neu rydd oddeutu 100 llinell (sydd heb fod yn fuddugol yn yr eisteddfod hon o'r blaen)

Testun: Llanw.

Gwobr: Coron Arian fechan o waith John Price a £50 (£50 yn rhodd Cynghorwyr Ward Seiriol –Alun Roberts, Carwyn Jones a Gary Pritchard.)

*Ni chaniatéir ennill y Goron fwy na 3 gwaith .*

**Tlws yr Ifanc dan 25 oed**

Darn gwreiddiol o lenyddiaeth creadigol (barddoniaeth neu ryddiaith) hyd at 2,000 o eiriau. Gwobrau: Tlws a £40; £20.

*Ni chaniateir ennill Tlws yr Ifanc fwy na 2 waith*.

**Cynhelir y ddwy Seremoni (Coroni a Thlws yr Ifanc) tua 7 o'r gloch .**

**Barddoniaeth**

Englyn : Dathlu. Gwobr: £10.

Limerig:
"Cawn ddathlu'r cant yma 'leni" Gwobr £10.

Telyneg: Amser. Gwobr £10

Emyn: Emyn Heddwch. Gwobr: £10

Bl.10 ac 11: Hunanddewisiad. Gwobrau: £7, £5, £3.
Bl.7, 8 a 9: Hunanddewisiad. Gwobrau: £5, £3, £2.

**Rhyddiaith**

Stori Fer: Agored. Gwobr: £10.

Ysgrif: Agored. Gwobr: £10

Ysgrifennu erthygl addas ar gyfer Papur
Bro: Agored (Dim mwy na 500 gair). Gwobr: £10.

Bl.10 ac 11: Hunanddewisiad. Gwobrau: £7; £5; £3
Bl.7, 8 a 9: Hunanddewisiad. Gwobrau: £5, £3, £2

***Dyddiad olaf derbyn y gwaith fydd Dydd Gwener 24 Mai*.**

*****************

**Cerddoriaeth - Cyfansoddi**

***Bydd y beirniad yn paratoi beirniadaeth fer ar bob ymgais. Byddai'r Ysgrifennydd Cerdd yn gwerthfawrogi derbyn amlen wedi'i stampio a'i hunan-gyfeirio gyda'r cynnyrch ar gyfer anfon y feirniadaeth. Cyfeiriad: Ann Coleman, 21 Bron Haul, Llandegfan, Ynys Môn, LL59 5YF 01248716289.***

1. Cyfansoddi darn o gerddoriaeth ar gyfer unrhyw offeryn/llais rhwng 2-5 munud o hyd. Nodiant/Recordiad (megis pdf, mp3) yn dderbyniol.
Gwobrau: £40, £20
{£60 yn rhoddedig gan Gymdeithas Ddinesig Porthaethwy a'r Cylch.}

2. Cyfansoddi Emyn–Dôn ar y geiriau canlynol
o eiddo'r Parchg. Casi M. Jones. Gwobrau: £30, £15

Crist y Ffoadur

Ffoadur Grist, o Fethlehem
gyrrwyd dy deulu tlawd ar daith,
i ffoi rhag erledigaeth lem
gan deimlo'n ofnus lawer gwaith.
Bydd gyda'r rhai mewn ofn a ffy
rhag cysgod angau'n dyddiau ni.

Bererin Grist, o'th gartref clyd
bu'n rhaid i tithau grwydro mhell.
Bydd gyda'r rhai ar daith o hyd
i geisio canfod bywyd gwell.
Yn eu hwynebau gad i ni,
Bererin Grist, d'adnabod di.

O Grist y Bugail, clyw ein llef
dros braidd y nos, dan ddüwch nen.
I'r rhai ar goll ymhell o dref
rho siriol wawl un Seren wen -
arwydd i'r byd o'th gariad mawr,
ernes o olau nes daw'r wawr**.**

**Casi M.**

**Dyddiad olaf derbyn y gwaith fydd Dydd Gwener 24 Mai.**

***************************

**Celf a Llên Ysgolion Cynradd**
(Cyfyngedig i Ysgolion Ward Seiriol.)

Bydd cystadlaethau Celf a Llên yn cael eu gosod ar gyfer yr ysgolion hyn a chysylltir yn uniongyrchol â hwy ynglŷn â'r gofynion.

## AMODAU

1. Cynnyrch y cystadlaethau cartref Llên a Cherddoriaeth i fod yn llaw'r ysgrifenyddion perthnasol erbyn **Dydd Gwener, 24 Mai 2024.** Cedwir yr hawl i gyhoeddi'r cynnyrch Llên yn y papur bro lleol.

2. Enwau cystadleuwyr ar y cystadlaethau llwyfan i fod yn llaw'r ysgrifennydd perthnasol erbyn **1 Gorffennaf 2024.**Wrth roi eu henwau i'r Ysgrifennydd Cerdd dylai cystadleuwyr ar y cystadlaethau cerdd dant nodi hefyd y gainc a'r cyweirnod.

3. Rhaid i ymgeiswyr fod o fewn yr oed priodol ar ddiwrnod yr Eisteddfod. Blwyddyn 6 ac iau yw oed Ysgol Gynradd ac iau. Blwyddyn 7-13 yw oed Ysgol Uwchradd.

4. Ni chaniatéir cyflwyno'r un darn mewn dwy gystadleuaeth.

5.Ymgeiswyr yng nghystadlaethau'r llwyfan i ofalu bod copi ar gael i'r beirniad a chopi arall i'r cyfeilydd lle bo hynny'n berthnasol.

6. Caniatéir i ymgeiswyr newid cyweirnod ar gyfer eu llais. Dylid rhoi gwybod i'r Ysgrifennydd Cerdd erbyn **28 Mehefin 2024** a gofalu bod copi i'r cyfeilydd.

7. Rhoddir hawl i gystadleuwyr offerynnol a chystadleuwyr yr Unawd Sioe Gerdd ddod â'u cyfeilyddion eu hunain, ond os bydd angen gwasanaeth cyfeilydd swyddogol yr eisteddfod, rhaid anfon copi i'r Ysgrifennydd Cerdd erbyn **28 Mehefin 2024**.

**8. Cynhelir rhagbrofion neu ragwrandawiadau yn yr Ysgol Gynradd ar gyfer yr Unawd Agored, Yr Her Unawd a'r Hen Ganiadau rhwng 4:30 a 6:30 o'r gloch. Bydd angen i'r holl gystadleuwyr gofrestru cyn 5 o'r gloch. Ni chaniatéir i unrhyw un ganu ar y llwyfan oni bai ei fod wedi ymddangos yn y rhagbrawf. Rhaid anfon copïau i'r Ysgrifennydd Cerdd erbyn 1 Gorffennaf 2024.**

9. Os bydd y rhai sy'n cymryd rhan yng nghystadlaethau rhifau 26 a 27 yn prynu eu tocynnau ymlaen llaw, codir pris gostyngol o £3 yr aelod, hyd at yr uchafswm o £60.

10. Bydd barn y beirniad yn derfynol ym mhob adran.

11. Gofynnir i'r beirniad baratoi beirniadaeth ysgrifenedig fer ar bob cystadleuydd/ cystadleuaeth a'i chyflwyno i'r Ysgrifenyddion. Pan draddodir o'r llwyfan, ni roddir ond braslun.

12. Ni fydd Pwyllgor yr Eisteddfod yn gyfrifol am unrhyw ddamwain na cholled a ddigwydd yn ystod neu ynglŷn â'r Eisteddfod.

## DIOLCH

Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i'r canlynol am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth i'r Eisteddfod eleni:

Cyngor Cymuned Cwm Cadnant
Cymdeithas Eisteddfodau Cymru
Noddwyr (gweler Tudalennau Noddwyr)
Noddwyr Gwobrau

Rhif Elusen 506003

Aelod o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru